Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Portfield, Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 15 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83577-053-5

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 17

4. Y camau nesaf .......... 21

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 22

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 23

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Portfield, Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar 15 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd 16 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd tri gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Practis Deintyddol Portfield yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ceisio cymorth er mwyn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith
- Sicrhau bod y staff yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amgylchedd y practis yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgar a chyfeillgar mewn meddygfeydd a oedd yn cynnal eu hurddas.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Practis Deintyddol Portfield mewn cyflwr da ac yn cynnwys digon o gyfarpar i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i gleifion.

Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar, ac yn addas at y diben. Roedd ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a diheintio (dihalogi) offer deintyddol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân ac atal tân
- Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau mewn modd cyson

- Rhoi rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthio (LocSSIPs) ar waith
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn dangos yn glir pa driniaethau a ddarparwyd gan ba aelodau o'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd systemau priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer atal a rheoli heintiau.
- Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Dealltwriaeth glir o weithdrefnau diogelu.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Portfield ac roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu rheolaidd
- Cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff
- Rhoi proses strwythuredig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a dysgu o adborth a chwynion gan gleifion
- Cyflwyno systemau i fonitro a hyrwyddo gwelliannau o ansawdd uchel
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cofnodion staff yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- Amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*" Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn barod i helpu."*

*" Gwasanaeth rhagorol. Mae'n bleser delio â'r derbynnydd."*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r ddeintyddfa wedi canslo apwyntiadau cyffredinol ar fyr rybudd ac rwyf wedi gorfod aros am fisoedd wedyn cyn cael apwyntiad arall."*

*"Mae wedi bod yn anodd iawn cael apwyntiadau cyffredinol a brys yn y practis ... mae'n ymddangos bod pethau wedi gwella llawer erbyn hyn. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn."*

## Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Roedd taflenni ar gael yn yr ardal aros, yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau yn ymwneud ag iechyd y geg a thriniaethau. Roedd posteri hefyd yn cael eu harddangos, yn rhoi gwybodaeth am broblemau iechyd megis yfed alcohol, a manteision a risgiau pelydr-X.

Roedd arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar fangreoedd di-fwg.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio gofal y geg iddynt mewn ffordd y gallent ei deall. Roedd 15 o'r 16 o ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau yn ystod triniaethau a bod cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn ardal y dderbynfa er mwyn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod y negeseuon ar y peiriant ateb yn cael eu cyfeirio i swyddfa breifat i fyny'r grisiau, er mwyn hyrwyddo preifatrwydd. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gellid cynnal sgyrsiau cyfrinachol mewn deintyddfa segur neu swyddfa i fyny'r grisiau, pe bai angen.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, a bod y staff wedi gwrando ar eu cwestiynau ac wedi eu hateb.

Roedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion ac yn cael eu harddangos yn ardal y dderbynfa. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn yr ardal aros.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**
Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad. Roeddent hefyd yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a bod y gost wedi cael ei nodi'n glir cyn iddynt gael y driniaeth. Dywedodd 15 o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a dywedodd un nad oedd wedi cael digon o wybodaeth i'w deall.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion naw claf, a gwelsom fod tystiolaeth gynhwysfawr o'r broses cynllunio triniaeth a'r opsiynau.

## Amserol

**Gofal Amserol**
Gwelsom fod oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir y tu allan i'r brif fynedfa, ynghyd â manylion cyswllt y practis a rhif ffôn i'w defnyddio mewn argyfwng y tu allan i oriau.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau am driniaeth frys ar gael bob dydd a bod apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig i gleifion eraill.

Roedd system negeseua gwib ar waith rhwng y deintyddfeydd a'r dderbynfa, a dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i gleifion ar lafar am unrhyw oedi ac yn cynnig aildrefnu apwyntiadau pe bai angen.
Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i holiadur AGIC (14 o'r 16) ei bod hi'n 'hawdd' neu'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, a dywedodd dau ymatebydd nad oedd hi'n hawdd iawn gwneud hynny. Dywedodd un ymatebydd:

> *"Yn dda ar y cyfan, ond cefais hi'n anodd cael gofal brys priodol y llynedd..."*

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**
Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis. Nid oedd tystiolaeth bod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Nododd un ymatebydd i holiadur AGIC mai'r Gymraeg oedd ei ddewis iaith ac nad oedd wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis geisio cyngor a chymorth er mwyn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

Ychydig iawn o wybodaeth a welsom yn cael ei darparu i gleifion yn Gymraeg, neu mewn unrhyw ieithoedd neu fformatau eraill (megis print bras). Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd delio â chleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis ystyried darparu deunyddiau mewn fformatau amgen i ddiwallu anghenion y cleifion, a sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfieithu pan fo angen.**

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi gwrth-fwlio ac aflonyddu ar waith yn y practis. Roedd y polisïau yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaeth i bob claf ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dywedodd y staff wrthym, er mwyn hyrwyddo urddas cleifion trawsryweddol, fod eu rhagenwau a ffefrir yn cael eu cofnodi yn eu nodiadau meddygol a bod y staff yn cael eu cyfarwyddo i'w defnyddio.

Gwelsom fod dolen sain ar gael i gleifion yn yr ardal aros.

Roedd ramp yn arwain at y drws ffrynt ac roedd yr holl ardaloedd i gleifion ar y llawr gwaelod, gan olygu eu bod yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd arwyddion clir, gan gynnwys arwyddion mewn braille, ar gyfer y toiled i gleifion. Roedd y toiled wedi'i leoli ar y llawr gwaelod ond nid oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ond roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn Nhaflen Wybodaeth i Gleifion y practis.

Roedd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth, a'u bod wedi gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir heb ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig (a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010).

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Gwelsom fod polisi cynnal a chadw'r adeilad ar waith yn y practis.

Roedd y toiled i gleifion yn lân yr olwg ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo ac uned gwaredu eitemau ar gyfer mislif.

Gwelsom fod polisi a chynllun parhad busnes a chynllunio ar gyfer trychinebau ar waith yn y practis. Roedd y ddogfen hon yn nodi sut i gyfeirio cleifion at bractis arall mewn argyfwng.

Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer rheoli risg, a oedd yn cyfeirio at amrywiaeth o asesiadau risg.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn cynnal arolygiadau dyddiol o'r adeilad er mwyn nodi unrhyw faterion, risgiau a chamau gweithredu.

Gwelsom fod asesiad risg tân llawn wedi cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2022. Er bod adolygiad rhannol wedi cael ei gynnal cyn yr arolygiad, roedd yn destun pryder nad oedd rhai o'r camau gweithredu 'blaenoriaeth uchel' a nodwyd, yn ymwneud â hyfforddiant staff ac ymarferion tân, wedi cael eu cwblhau o hyd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos y canlynol: bod un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf; bod tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant, ond nad oedd hynny wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf; ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant ar ddiogelwch tân ar gyfer pedwar aelod o'r staff. Ni chawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff yn deall y mesurau atal a diogelwch tân.

Nid oedd tystiolaeth ar gael yn y practis i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Ni chawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai tân.

**Ymdriniwyd â'n pryderon yn ymwneud â hyfforddiant ar ddiogelwch tân ac ymarferion tân mewn hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae hyn yn golygu y gwnaethom ysgrifennu at y practis ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei**

**gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir manylion am yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gennym yn Atodiad B.**

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr a phoster Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i'w gweld yn yr ardal i staff yn unig.

Roedd ardal benodol ar gael i'r staff storio eitemau personol, a gallent ddefnyddio'r toiled i'r staff ac ystafell y staff y gellid ei chloi fel ardal newid.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Roedd y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith, a oedd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau ac arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig. Roedd amserlen lanhau ar waith a oedd yn cefnogi arferion glanhau effeithiol, ac roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith ar gyfer gwirio cyfarpar sterileiddio.

Roedd gan y practis ardal benodol ar gyfer glanhau a diheintio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd y cyfleuster yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Gwelsom fod y staff yn gymwys yn y protocolau diheintio, ond rydym yn argymell y dylid defnyddio cofnodion cymhwysedd a'u diweddaru'n barhaus i ddangos bod y staff wedi cael hyfforddiant llawn, gan nodi hefyd ar gyfer pa gyfarpar.

**Rydym yn argymell y dylid defnyddio cofnodion cymhwysedd i ddangos bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio cyfarpar a phrotocolau dihalogi.**

Dywedwyd wrthym fod trefniadau iechyd galwedigaethol ar waith rhwng y practis a'r ysbyty lleol ar gyfer brechiadau ac anafiadau offer miniog. Gwelsom fod dyfais ail-orchuddio nodwyddau yn cael ei defnyddio ar gyfer offer miniog a gwnaethom argymell y dylid defnyddio chwistrellau diogel.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis ddefnyddio 'dyfeisiau offer miniog mwy diogel' er mwyn lleihau'r risg o anafiadau nodwydd i'r staff.**

Roedd system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel, gan gynnwys gwahanu a storio gwastraff clinigol.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

**Rheoli Meddyginiaethau**
Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac roedd cofnod clir o'r meddyginiaethau a roddwyd.

Roedd cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn hawdd yn y practis. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar argyfyngau meddygol, ac roedd y sampl o gofnodion hyfforddiant y staff y gwnaethom edrych arnynt yn cefnogi hyn.

**Diogelu Plant ac Oedolion**
Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau diogelu clir ar waith yn y practis, a oedd ar gael i bob aelod o'r staff. Gwelsom boster cyfredol o rifau cyswllt perthnasol.

Wrth drafod â'r staff, roedd yn amlwg eu bod yn deall y gweithdrefnau, a bod arweinydd diogelu'r practis wedi'i nodi'n glir.

Nid oedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru ac, felly, nid oeddent yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Gwnaethom argymell y dylid defnyddio Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a chafodd y mater hwn ei ddatrys gan reolwr y practis yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu'r wefan fel nod tudalen ar gyfrifiaduron y practis.

**Rydym yn argymell y dylid cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru yn y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol a chyfarwyddo'r staff i'w defnyddio.**

Dywedwyd wrthym y gallai staff yr oedd yn rhaid iddynt ddelio â phryder diogelu gael cymorth drwy'r trefniadau iechyd galwedigaethol.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn y practis mewn cyflwr da ac yn addas at y diben a fwriadwyd. Roedd cyfarpar deintyddol amldro yn cael ei lanhau a'i ddiheintio effeithiol.

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd y dogfennau a welsom yn cynnwys rhestr o gyfarpar ac asesiad risg ymbelydredd, enw'r Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd, y trefniadau ar

gyfer profi a chynnal a chadw cyfarpar, a'r trefniadau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau a'u cofnodi.

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith, ar y cyfan, ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs), er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis roi rhestrau gwirio'r LocSSIPs ar waith.**

### Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion naw claf a gwelsom fod dynodyddion cleifion, hanes, symptomau, y broses cynllunio triniaeth a chydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'u cofnodi'n dda.

Yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom un achos lle nad oedd asesiad risg wedi cael ei gofnodi ac un achos lle nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi cael ei gynnig, ac nid oedd yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dewis iaith y claf.

**Rydym yn argymell y dylai cofnodion cleifion gael eu cwblhau mewn modd cyson, er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth berthnasol ei chynnwys.**

**Rydym yn argymell y dylid cofnodi dewis iaith cleifion yn eu cofnodion.**

Yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd y driniaeth a roddwyd gan glinigydd penodol wedi cael ei gofnodi'n gywir.

**Rydym yn argymell y dylai pob cofnod gael ei gwblhau gan y clinigydd perthnasol ar adeg y driniaeth, er mwyn sicrhau cofnod cywir o'r gofal a roddwyd, a chan bwy.**

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod yr adeilad a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig

i gleifion a bod y rhai yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu lle bo modd.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd pob un o'r aelodau o staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn eu galluogi i ddarparu gofal priodol i gleifion. Roedd y staff hefyd yn cytuno mai gofal cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y practis, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion.

Roedd pob un o'r aelodau o staff a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Fodd bynnag, dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol nac adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

> ***"Mae pob aelod o staff y practis hwn yn trin y cleifion yn dda, yn rhoi croeso cynnes iddynt, ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn bwysig."***

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

> ***"Rwy'n ei chael hi'n amhosibl mynegi fy mhryderon neu godi problemau gyda'r rheolwyr."***
>
> ***"Nid yw mewnbwn staff yn cael ei annog."***

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Gwelsom fod strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis, dan gyfarwyddyd y perchennog, sef y prif ddeintydd a'r rheolwr cofrestredig hefyd, a rheolwr y practis.

Roedd y tîm clinigol yn cydweithio'n dda i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal. Gwnaethom awgrymu y byddai cynnal cyfarfodydd tîm strwythuredig rheolaidd yn gyfle i rannu gwybodaeth a galluogi'r staff i gyfrannu at welliannau i'r gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys eitemau sefydlog ar yr agenda megis diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau, gwersi a ddysgwyd o adborth gan gleifion, cwynion a digwyddiadau o bwys, cynllunio a rhannu canlyniadau archwiliadau a cheisio barn y staff am y gwasanaethau a ddarperir a gwelliannau.

**Er mwyn helpu i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, rydym yn argymell y dylai'r practis gynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd. Dylai cofnodion y cyfarfodydd hyn gael eu cofnodi a'u rhannu ag unrhyw aelodau o'r staff na allent fod yn bresennol.**

Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn y practis. Gwnaethom nodi bod arfarniadau staff unigol rheolaidd, yn ogystal â bod yn ofyniad rheoliadol, yn adnodd pwysig i adolygu perfformiad a thrafod gofynion hyfforddiant.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau rheolaidd.**

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod adnoddau datblygu tîm yn cael eu defnyddio i nodi anghenion hyfforddi a gwella ansawdd gwasanaethau.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis ystyried defnyddio adnodd Hunanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).**

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o raglen strwythuredig i sicrhau bod y dogfennau'n cael eu hadolygu o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

**Dylai rheolwr y practis sefydlu system i gofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a dyddiadau adolygu arfaethedig priodol.**

Gwelsom fod y practis wedi cyflwyno Datganiad o Ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion i AGIC. Ers hynny, roedd y rhain wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y practis, ond nid oedd fersiynau newydd wedi cael eu cyflwyno i AGIC.

**Rhaid i fersiynau diwygiedig o'r Datganiad o Ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion gael eu cyflwyno i AGIC.**

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Dywedodd y staff wrthym fod cymysgedd a nifer addas o staff clinigol i ddarparu gwasanaethau i gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod pob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol yn y practis wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd enwau'r staff a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol yn cael eu harddangos.

Gwelsom fod systemau da ar waith i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal wrth benodi staff. Hefyd, nid oedd polisi 'cyflogi a sefydlu' ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau tri aelod o'r staff. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion, dadebru cardio-anadlol, delio ag argyfyngau meddygol a diogelu rhag ymbelydredd.

Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac nad oeddent yn deall eu cyfrifoldebau oddi tani.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.**

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Roedd y practis yn darparu ffurflenni adborth papur yn yr ardal aros, ynghyd â blwch er mwyn i gleifion eu cyflwyno'n ddienw pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd copi o'r weithdrefn gwyno hefyd i'w weld, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn yr ardal aros, ynghyd â manylion sut i wneud cwyn ac amseroedd ymateb. Roedd fersiwn fanylach o'r weithdrefn gwyno wedi'i chynnwys mewn ffolder gwybodaeth i gleifion, a oedd yn cael ei gadw yn yr ardal aros. Roedd y ffolder hwn yn cynnwys ffynonellau cymorth ac eiriolaeth, y camau i'w cymryd os na ellid cytuno ar ddatrysiad, a manylion cyswllt AGIC. Roedd y ffolder hefyd yn cynnwys copi o ddogfen 'Gweithio i Wella' y GIG.

Dywedwyd wrthym fod cwynion a wnaed ar lafar yn cael eu datrys lle bo modd, ond nad oeddent yn cael eu cofnodi. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw gofnod canolog ar gyfer cofnodi cwynion ac adborth, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ar lafar, ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i hynny. Gwnaethom nodi bod cadw cofnod o gwynion ac adborth, a'u hadolygu'n rheolaidd, yn bwysig er mwyn nodi unrhyw themâu neu bwyntiau i'w dysgu.

**Dylai'r practis sefydlu system i gofnodi cwynion ac adborth, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ar lafar, ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i hynny, a sicrhau y cânt eu hadolygu'n rheolaidd.**

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel. Roedd hysbysiad preifatrwydd a thystysgrif cofrestru diogelu data yn cael eu harddangos.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Ychydig o dystiolaeth a welsom i ddangos bod prosesau ar waith i wella gwasanaethau.

Gwelsom dystiolaeth o nifer cyfyngedig o archwiliadau lleol, ond ni welsom dystiolaeth o archwiliadau cenedlaethol. Ni welsom dystiolaeth o system ar gyfer archwilio a gwella ansawdd cofnodion cleifion, yr Archwiliad Clinigol ac Adolygiad Cymheiriaid CAPRO o brosesau rhagnodi gwrthfiotigau, nac o archwiliad rhoi'r gorau i smygu. Gwelsom nad oedd unrhyw adolygiad cymheiriaid o'r staff clinigol wedi cael ei gynnal.

**Rydym yn argymell y dylid sefydlu rhaglen o archwiliadau clinigol, gan gynnwys archwiliadau CAPRO, archwiliadau o ansawdd cofnodion cleifion, ac archwiliadau rhoi'r gorau i gleifion.**

Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y practis yn monitro, yn adolygu ac yn gwella ansawdd gwasanaethau ar sail adolygiadau o wasanaethau, sylwadau gan gleifion neu safbwyntiau staff.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis asesu a monitor ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan ystyried safbwyntiau cleifion a staff.**

Nid oedd y practis yn defnyddio'r adnoddau hyfforddi Gwella Ansawdd a ddarperir gan AaGIC.

**Rydym yn argymell y dylai'r practis adolygu'r adnoddau hyfforddi Gwella Ansawdd a ddarperir gan AaGIC a mabwysiadu'r rhai sy'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir.**

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**
Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cysylltu â darparwyr gofal iechyd eraill, megis fferyllwyr neu ysbytai, i drafod gofal cleifion a thriniaeth feddygol.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Nid oedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff.** | Nid oedd y canllawiau cyfreithiol ar gael i'r staff, a allai effeithio ar eu gallu i ddelio â materion diogelu yn effeithiol. | Trafodwyd y mater â rheolwr y practis. | Ychwanegodd rheolwr y practis 'dab cefndir' ar bob un o gyfrifiaduron y practis, wedi'i gysylltu â'r wefan sy'n dangos Gweithdrefnau Diogelu Cymru. |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol Portfield**

**Dyddiad yr arolygiad: 15 Awst 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Edrychodd AGIC ar sampl o gofnodion hyfforddiant y staff yn ystod yr arolygiad. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos y canlynol: bod un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân yn ystod y 12 mis diwethaf; bod tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant, ond nad oedd hynny wedi digwydd yn ystod y 12** | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff y staff hyfforddiant addas ar atal tân, ac y caiff hyn ei ddogfennu yng nghofnodion hyfforddiant y staff | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)(c) | Mae cwrs Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân a Swyddogion Tân a ddarperir gan Dental Directory wedi'i drefnu, i'w gynnal gan Ymgynghorydd Cymorth dynodedig y Practis. Bydd yn cynnal y sesiwn hyfforddiant ym Mhractis Deintyddol Portfield ddydd Mercher 27 Medi. Mae e-bost cadarnhau ac | Dr Raminta Urbonaviciene | Cynhelir yr hyfforddiant ddydd Mercher 27 Medi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **mis diwethaf; ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant ar ddiogelwch tân ar gyfer pedwar aelod o'r staff.**<br><br>**Mae hyn yn dangos bod mwy o risg i ddiogelwch cleifion a staff.** | | | anfoneb ar gyfer yr hyfforddiant hwn wedi cael eu darparu fel tystiolaeth. | | |
| **Edrychodd AGIC ar y ddogfennaeth diogelwch tân yn ystod yr arolygiad. Nid oedd tystiolaeth ar gael yn y practis i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal na bod y staff wedi ymarfer dilyn y gweithdrefnau. Mae hyn yn dangos bod mwy o risg i ddiogelwch cleifion a staff pe bai tân.** | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn cynnal ymarferion tân neu ymarferion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai tân. Rhaid i gofnodion gael eu cadw pan fydd ymarferion tân wedi cael eu cynnal, gan nodi pa aelodau o'r staff a gymerodd ran. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22 (4)(d) | Cynhaliwyd ymarfer tân am 12:55pm ar 18.8.23 ym Mhractis Deintyddol Portfield. Roedd pob aelod o'r tîm yn bresennol. Caiff presenoldeb, y camau a gymerwyd, a'r amser a gymerodd i wagio'r adeilad eu cofnodi yn y Cofnod o Ymarferion Tân. Cofnododd y Swyddog Tân (derbynnydd) bob | Dr Raminta Urbonaviciene | Cynhaliwyd ymarfer ar 18.8.23 ac roedd pob aelod o'r tîm yn bresennol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | unigolyn wrth iddo gyrraedd y man ymgynnull a llofnododd yr aelodau a oedd yn bresennol y cofnod wrth iddynt gyrraedd. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u darparu fel tystiolaeth. | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Dr Raminta Urbonaviciene**

**Swydd: Prif Ddeintydd a Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 18 Awst 2023**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Practis Deintyddol Portfield**

**Dyddiad yr arolygiad:** **15 Awst 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nid oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.** | Ceisio cyngor a chymorth gan y bwrdd iechyd lleol er mwyn rhoi'r **'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.** | Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011<br>Safon: Yn canolbwyntio ar yr unigolyn | Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n galluogi pob claf i deimlo bod ganddo reolaeth dros y gwasanaethau a'r opsiynau triniaeth a gynigir iddo, a'i fod yn eu deall yn llawn. Er mwyn sicrhau bod ein cleifion yn cael cynnig y cyfle i gyfathrebu ag aelodau ein tîm yn eu dewis iaith, rydym wedi cyflwyno dyfais sy'n cynnig cyfieithiadau llais dwyffordd rhwng 137 o ieithoedd gwahanol. | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau erbyn 06/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ar hyn o bryd, mae pob aelod o'n tîm yn siarad Saesneg, ac nid oes yr un ohonynt yn siarad Cymraeg. Yn anffodus, nid oes yr un ddyfais llaw neu ap cyfieithu llais/testun ar y farchnad ar hyn o bryd sy'n cynnig cyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg, ochr yn ochr â diogelwch yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Bydd yn ofynnol i bawb sy'n defnyddio ein dyfais gwasanaeth cyfieithu lofnodi ffurflen sy'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y risgiau i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â'n gwasanaeth cyfieithu presennol ac sy'n gofyn iddynt osgoi defnyddio data adnabyddadwy personol (megis enw, cyfeiriad cartref, dyddiad geni, a manylion cyswllt), wrth ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu. Gellir darparu gwasanaeth cyfieithu | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn unol â'r GDPR pan ddilynir y rheol hon. Gall cleifion wedyn drafod triniaethau arfaethedig, opsiynau triniaeth, eu disgwyliadau yn y ffordd orau posibl, a byddant yn y sefyllfa orau posibl i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth i driniaeth.<br><br>Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig gwasanaeth cyfieithu all-lein sy'n cydymffurfio â rheoliadau diogelwch a phreifatrwydd y GDPR. Mae hwn yn wasanaeth cyfieithu mwy cyfyngedig sy'n gallu cyfieithu llawer llai o eiriau ac sy'n darparu cyfieithiadau diogel ar gyfer 16 o ieithoedd. Yn anffodus, nid oes gwasanaeth cyfieithu all-lein rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gael ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar-lein ar gyfer 137 o ieithoedd gwahanol, sy'n cynnwys y | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gymraeg. Wrth i gyfleoedd recriwtio newydd godi, byddwn yn ceisio penodi ymgeisydd sy'n siarad Cymraeg i'n tîm, gan sicrhau nad yw hyn yn creu unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr eraill.<br><br>Mae arwyddion clir wedi'u harddangos wrth ddesg y dderbynfa yn Gymraeg a Saesneg, sy'n cynnig ein gwasanaethau cyfieithu am ddim, yn cynnig cyfieithiadau o'n llenyddiaeth i gleifion ar gais, ac yn rhoi gwybod i gleifion am y gofyniad i gwblhau ein ffurflen sy'n rhoi cyngor i gleifion ar y gwasanaeth cyfieithu ac yn gofyn iddynt gydsynio i ddefnydd cyfyngedig. | | |
| Ychydig o wybodaeth oedd ar gael yn Gymraeg, neu mewn unrhyw ieithoedd neu fformatau | Ystyried darparu deunyddiau mewn fformatau amgen er mwyn diwallu anghenion cleifion | Safon: Yn canolbwyntio ar yr unigolyn | Gallwn bellach gynnig cyfieithiadau o lenyddiaeth ar gais. Caiff y gwasanaeth | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ar 05/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| eraill (megis print bras). Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd delio â chleifion nad ydynt yn siarad Saesneg. | a sicrhau y gall y staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan fo angen. | | cyfieithu hwn ei gynnig yn weithredol.<br><br>Bydd gwybodaeth ychwanegol y cael ei rhoi i gleifion a'i harddangos yn Gymraeg. Bydd arwyddion yn cynnig fersiynau print bras o ffurflenni'r practis yn cael eu harddangos.<br><br>Gellir darparu copïau o dderbynebau cyfieithwyr i AGIC ar gais. | | |
| **Nid oedd cofnodion ar gael i ddangos bod y staff wedi cael hyfforddiant ar brotocolau dihalogi a'r defnydd o gyfarpar dihalogi.** | Sefydlu cofnodion cymhwysedd i gofnodi hyfforddiant staff ar y defnydd o gyfarpar dihalogi a phrotocolau cysylltiedig. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(b) | Mae cofnod cymhwysedd bellach wedi cael ei greu, sy'n cofnodi cymhwysedd presennol pob aelod o'r tîm sy'n gyfrifol am weithdrefnau dihalogi a sterileiddio. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ychwanegol y tu hwnt i'r cymhwyster sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r tasgau hyn. Mae cofnod o hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus bob amser wedi cael | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ar 04/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ei gadw. Mae pob aelod o'r tîm sy'n cyflawni gweithdrefnau dihalogi a sterileiddio wedi cael hyfforddiant ac yn gymwys i wneud hynny. Mae pob un o'n Nyrsys Deintyddol sy'n gyfrifol am ddihalogi offer deintyddol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae pob un o'n Nyrsys Deintyddol presennol yn meddu ar sawl blwyddyn o brofiad personol o ddefnyddio'r mathau o gyfarpar dihalogi a ddefnyddir ym Mhractis Deintyddol Portfield, ac mae pob un ohonynt yn gyfarwydd iawn â'r profion dyddiol, wythnosol a chwarterol a gynhelir i sicrhau bod y cyfarpar hwn yn gweithio'n unol â manyleb y gwneuthurwr, a bod yr holl offer a gaiff eu glanhau gan y cyfarpar hwn yn cael eu hailbrosesu mewn modd dibynadwy a chyson. Rydym | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn cadw cofnodion o'r holl brofion a gynhelir ar gyfarpar yn ogystal â chofnodion dyddiol o'r holl brosesau dihalogi a sterileiddio a gynhelir. Rydym yn gwneud yn siŵr bod yr holl offer deintyddol a ddefnyddir mewn deintyddfa yn cael eu sterileiddio, ac yn rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch pob claf.<br><br>Gellir darparu copi o'r cofnod o gymhwysedd staff i AGIC ar gais. | | |
| **Roedd dyfais ail-orchuddio nodwyddau yn cael ei defnyddio ar gyfer offer miniog.** | Defnyddio 'dyfeisiau offer miniog mwy diogel' lle y bo'n briodol, er mwyn lleihau'r risg o anafiadau nodwydd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(5) | Mae ein defnydd presennol o flociau nodwydd yn golygu bod modd ail-gapio nodwyddau ag un llaw mewn amgylchiadau eithriadol, sy'n rheoli'r risg o anaf i'r deintydd. Rydym bellach wedi cyflwyno 'offer miniog mwy diogel' ym mhob un o'r tair ystafell drin i'w defnyddio gan y deintyddion | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau erbyn 06/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a'r therapyddion deintyddol. Caiff cynhwysyddion offer miniog mwy diogel a ddefnyddiwyd eu casglu gan ein harbenigwyr gwaredu gwastraff clinigol dan gontract i'w cludo a'u gwaredu'n ddiogel. | | |
| **Nid oedd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol yn cyfeirio at weithdrefnau cenedlaethol Cymru.** | Diweddaru'r dogfennau diogelu i gyfeirio at weithdrefnau cenedlaethol Cymru a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r diweddariadau. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)(a) | Mae Practis Deintyddol Portfield yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar Ddiogelu i bob aelod o'r tîm. Mae polisi'r practis ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso bellach wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru i gyfeirio at weithdrefnau cenedlaethol Cymru. Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon o'n polisi wedi cael ei hychwanegu at Lawlyfr Aelodau'r Tîm ac at daflen y practis sydd ar gael yn yr ardal aros, ac mae copïau ohoni wedi'u darparu i | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ar 04/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bob aelod o'r tîm. Caiff hyn ei drafod yn ystod ein cyfarfod tîm ar ddiwedd pob mis.<br><br>Gellir darparu copi o bolisi'r practis ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso i AGIC ar gais. | | |
| **Rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs), er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.** | Cyflwyno'r defnydd o restrau gwirio'r LocSSIPs. | Safon: Effeithiol | Rydym yn croesawu'r defnydd o restrau gwirio'r LocSSIPs yn fawr fel dull mwy strwythuredig o ymdrin â'r prosesau sydd eisoes ar waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.<br><br>Rwyf wedi cyflwyno Polisi Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs). Mae hwn wedi cael ei ychwanegu at Lawlyfr Aelodau'r Tîm a chafodd ei drafod yn ystod ein cyfarfod tîm 'diwedd y mis' diweddar. Dangoswyd fideo i'r tîm hefyd er mwyn gwella'r dysgu ar | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ar 29/09/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | broses y rhestr wirio hon. Mae rhestr wirio'r LocSSIPs bellach wedi'i hymgorffori yn rhaglen meddalwedd y practis fel bod modd ychwanegu'r holl gynlluniau triniaeth ar gyfer tynnu dannedd yn y dyfodol. Gan fod ein polisi yn ei gwneud yn ofynnol i ddelweddau pelydr-X gael eu harddangos yn ystod triniaethau i dynnu dannedd, mae copi wedi'i argraffu o restrau gwirio'r LocSSIPs bellach yn cael ei arddangos ar fonitor pob cyfrifiadur yn y ddeintyddfa.<br><br>Gellir darparu copi o'n Polisi Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs) i AGIC ar gais. | | |
| **Nid oedd rhywfaint o'r wybodaeth yng nghofnodion y cleifion wedi cael ei chofnodi'n gyson, ac nid oeddent** | Sicrhau bod y staff yn cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol yn y | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1) | Yn ychwanegol at ein 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg a'n gwasanaethau cyfieithu, bydd nodyn naid yn cael ei ychwanegu at | Raminta Urbonaviciene<br><br>Prif Ddeintydd a Rheolwr | Wedi'i gwblhau ar 17/08/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **yn cynnwys dewis iaith y claf.** | cofnodion, gan gynnwys dewis iaith y claf. | | nodiadau cyfrifiadurol cleifion er mwyn atgoffa aelodau o'r tîm o'u dewis iaith ym mhob achos lle nad Saesneg yw dewis iaith y claf.<br><br>Cofnodir dewis iaith cleifion yn eu cofnodion clinigol hefyd.<br><br>Rwy'n gweithio'n agos gyda fy nhîm i sicrhau y defnyddir dull mwy unffurf o gadw cofnodion cleifion. | Cofrestredig dan Gontract y GIG | |
| **Yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, nid oedd yn glir bob amser pa glinigydd a roddodd pa driniaethau.** | Sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn cofnodi'r driniaeth a roddwyd ganddo yn gywir yng nghofnod y claf. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1) | Mae achosion wedi bod lle nad yw'r clinigydd wedi ychwanegu ei enw at y nodiadau clinigol a wnaed ganddo. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y nodiadau clinigol a wnaed am y claf yn ystod yr apwyntiad, mae cofnod bob amser wedi cael ei gadw ar ein meddalwedd gyfrifiadurol i ddangos pa glinigydd a roddodd pa driniaethau, manylion y claf a | Raminta Urbonaviciene<br><br>Prif Ddeintydd a Rheolwr Cofrestredig dan Gontract y GIG | Wedi'i gwblhau ar 29/09/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gafodd y driniaeth, a dyddiad ac amser y driniaeth, ac ym mha ddeintyddfa y cafodd y claf ei drin. Mae ein deintyddion a'n therapyddion deintyddol wedi rhoi sicrwydd i mi y byddant yn gwneud yn siŵr eu bod yn ychwanegu eu blaenlythrennau at nodiadau clinigol yn y dyfodol. | | |
| **Nid oedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal, fel rhan o brosesau i fonitro a gwella ansawdd gwasanaethau.** | Cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, a rhannu'r cofnodion ag unrhyw aelodau o'r staff nad oeddent yn bresennol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)(c) | Rydym wedi ychwanegu at ein proses bresennol o gynnal sgrymiau tîm a rhannu gwybodaeth yn ddyddiol wrth i'r cyfle godi (ar ddechrau'r dydd ac yn ystod egwyliau cinio), ac rydym yn cynnal cyfarfodydd tîm 'diwedd y mis' mwy ffurfiol.<br><br>Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol, yn bennaf fel ffordd o ddarparu hyfforddiant ychwanegol, ac yn boblogaidd ymysg y tîm, sydd bob amser yn mwynhau | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau 29/08/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | sgwrsio â'r rheolwr a diweddaru eu gwybodaeth.<br><br>Roedd y cyfarfod tîm a gynhaliwyd ar 29/08/2023 yn gyfle i drafod ein hymarfer tân a gynhaliwyd ddydd Gwener 18 Awst yn fanwl, ac i atgoffa'r tîm o'r cwrs Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân a Swyddogion Tân a drefnwyd ar gyfer 27/09/2023. Gwnaethom hefyd gyflwyno ffurflen hunanwerthuso ac adborth ar gyfer aelodau'r tîm, sydd wedi bod yn adnodd meithrin tîm defnyddiol iawn. At hynny, gwyliodd y tîm fideos cwrs diweddaru ar Ymwybyddiaeth o Legionella a'r Ddyletswydd Gonestrwydd.<br><br>Cododd y tîm hygyrchedd Asesiadau Risg ac Archwiliadau ac, felly, mae dogfennau perthnasol bellach | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar gael yn ystafell orffwys y staff.<br><br>Roedd pob aelod o'r tîm hefyd yn bresennol yn ein cyfarfod tîm dilynol a gynhaliwyd ar 29/09/2023. Yn ystod y cyfarfod hwn, cyflwynwyd polisi diogelwch newydd gan ychwanegu dull mwy strwythuredig o ymdrin â'r mesurau presennol o atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd o'r hyfforddiant tân a gynhaliwyd yn ddiweddar, a gwyliodd y tîm fideo am weithgareddau Swyddogion Tân.<br><br>Oherwydd diffyg adborth gan gleifion i'w drafod mewn cyfarfodydd tîm, awgrymwyd y dylem ychwanegu at ein dulliau presennol o annog adborth gwerthfawr gan gleifion, gan ychwanegu | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | arwyddion a ffurflenni casglu data ychwanegol wrth ddesg y dderbynfa. Drwy wneud hyn, ein nod yw annog adborth mwy rheolaidd gan gleifion a sicrhau y caiff manylion meddygon teulu cleifion, ynghyd â sawl dull o gysylltu â nhw, eu casglu, eu diweddaru a'u darparu i'r deintyddion. Mae'r arwyddion hyn bellach wedi'u gosod.<br><br>Gellir darparu copïau o ffurflenni presenoldeb wedi'u llofnodi ar gyfer cyfarfodydd tîm i AGIC ar gais. | | |
| **Nid oedd y staff wedi cael arfarniadau rheolaidd.** | Sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau ffurfiol rheolaidd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(4) | Mae arfarniadau staff ffurfiol chwe-misol bellach wedi cael eu cyflwyno. Mae'r ffurflen hunanwerthuso ac adborth ar gyfer aelodau'r tîm wedi bod yn adnodd meithrin tîm defnyddiol iawn, ac wedi rhoi gwybodaeth i ni am | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau<br><br>29/08/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddyheadau'r tîm o ran hyfforddiant.<br><br>Rhoddwyd sicrwydd i'r tîm y caiff y ffurflenni hunanarfarnu hyn eu cadw'n breifat ac yn gyfrinachol, ac na chânt eu rhannu â neb. Mae'r tîm hefyd yn ymwybodol y caiff yr holl ddogfennau eu darparu i AGIC ar gais. | | |
| **Nid oedd adnoddau datblygu tîm yn cael eu defnyddio i nodi anghenion hyfforddi a gwella ansawdd gwasanaethau.** | Ystyried defnyddio adnodd hunanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a ddarperir gan AaGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(5 | Mae cyflwyno ffurflenni hunanasesu ar gyfer aelodau'r tîm wedi bod yn ddefnyddiol i nodi dyheadau aelodau'r tîm a meysydd lle y gall fod angen hyfforddiant ychwanegol ar staff. Mae Practis Deintyddol Portfield yn darparu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ar bynciau 'Craidd' i bob aelod o'r tîm drwy'r flwyddyn. Rydym yn asesu adnodd huanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau erbyn 06/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfer Deintyddiaeth ac yn ystyried ei roi ar waith, ar ôl ystyried ei fanteision yn dilyn asesu ein gofynion hyfforddiant ar hyn o bryd. | | |
| **Nid oedd proses ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu mor aml ag sy'n ofynnol.** | Sefydlu system i ddangos y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a'u dyddiadau adolygu. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(6) | Mae rhestr gynnwys, sy'n cynnwys y dyddiadau adolygu diweddaraf, bellach wedi cael ei hychwanegu at Lawlyfr Aelodau'r Tîm, sy'n cynnwys holl bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws asesu dyddiadau adolygu a bydd yn golygu bod modd cynnal adolygiadau o bolisïau yn y dyfodol yn seiliedig ar y dyddiad adolygu diweddaraf, yn hytrach nag ar bwysigrwydd canfyddedig polisi, fel oedd yn digwydd o'r blaen. Byddwn yn adolygu ein polisïau yn flynyddol, neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i reoliadau neu arferion gweithredu. Mae pob | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau<br><br>06/10/2023 |

aelod newydd o'r tîm yn darllen drwy Lawlyfr Aelodau'r Tîm yn ystod tridiau cyntaf ei gyfnod sefydlu. Rydym yn anelu at sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn ailddarllen Llawlyfr Aelodau'r Tîm yn flynyddol wedi hynny. Tynnir sylw'r aelodau'r tîm ar bob diweddariad i'n polisïau a'n gweithdrefnau wrth iddynt ddigwydd. Dim ond yn ystod egwyliau cinio neu ar ddechrau'r dydd yr arferai hyn ddigwydd, gyda chopïau o bolisïau newydd yn cael eu darparu'n unigol i'r tîm.  Mae hyn bellach yn digwydd yn ystod ein cyfarfodydd tîm ar ddiwedd pob mis. Mae Llawlyfr Aelodau'r Tîm, sy'n cynnwys y copïau diweddaraf o holl bolisïau a gweithdrefnau'r practis, bob amser ar fael i'r tîm ei ddarllen yn ystafell orffwys y staff.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gellir darparu copi o'r rhestr gynnwys i AGIC ar gais. | | |
| **Roedd Datganiad o Ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis wedi cael eu diweddaru, ond nid oedd copïau o'r fersiynau newydd wedi cael eu cyflwyno i AGIC.** | Cyflwyno'r fersiynau diwygiedig o Ddatganiad o Ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis i AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 7 | Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyflwyno i AGIC | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Cyflwynwyd i AGIC ar 06/10/2023 |
| **Nid oedd y staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.** | Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(3) | Rhoddwyd hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd i'r tîm cyfan yn ystod ein cyfarfod tîm a gynhaliwyd ar 29/08/2023<br><br>Gellir darparu copi o'r cofnod presenoldeb wedi'i lofnodi ar gyfer y cyfarfod hwn i AGIC ar gais. | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ar 29/08/2023 |
| **Nid oedd proses ar waith i gofnodi ac adolygu adborth, cwynion, a chamau** | Sefydlu system i gofnodi adborth a chwynion, gan gynnwys cwynion ar lafar, ac adolygu'r rhain yn | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Ein nod yw bodloni disgwyliadau cleifion o ran eu gofal a'r gwasanaethau a ddarperir bob amser. Rydym | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ar 05/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **dilynol, er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.** | rheolaidd er mwyn nodi gwelliannau posibl i ansawdd gwasanaethau. | 2017, Rheoliad 16 (2)(d) | yn anelu at fynd i'r afael â phob pryder a godir a datrys unrhyw gwynion a wneir, mor effeithlon a chwrtais â phosibl. Rydym yn annog pob math o adborth gan gleifion, a ystyrir bob amser yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth y gallwn ddysgu ohoni. Caiff cwynion ac adborth gwerthfawr arall eu hannog yn ein hystafell aros. Mae arwyddion clir wedi'u harddangos ynglŷn â'n system ar gyfer mynd i'r afael â chwynion a wneir a phryderon a godir, a cheir clipfwrdd a beiro yn yr ystafell aros at ddefnydd cleifion. Mae blwch postio wedi'i farcio'n glir wedi'i osod ar yr hysbysfwrdd i gleifion. Mae hyn yn eu galluogi i gyflwyno adborth yn ddienw os byddant yn dymuno gwneud hynny. Nodir mai Anthony Moore yw Rheolwr Cwynion y practis ac mae | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwybodaeth am sut i godi pryderon, gwneud cwynion, a rhoi pob math o adborth wedi'i chynnwys yn Nhaflen y Practis, y mae copi ohoni bob amser ar gael yn yr ystafell aros. Gwahoddir adborth drwy ein ffurflen adborth gan gleifion, drwy e-bost i portfielddental@outlook.com, a thrwy'r post at y Rheolwr Cwynion yn ein cyfeiriad busnes. Mae croeso i gleifion drafod cwyn, codi pryder neu roi unrhyw fath o adborth bob amser, drwy siarad yn uniongyrchol ag Anthony Moore, sef ein Rheolwr Cwynion.<br><br>Mae Rheolwr y Practis yn asesu'r blwch post adborth yn ddyddiol. Gosodir yr holl adborth yn ein ffolder Adborth gan Gleifion a gedwir yn swyddfa'r Rheolwr, ac rydym bob amser yn anelu at ddatrys pryder llafar neu | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gŵyn a wnaed mewn ffordd sy'n bodloni'r claf yn llwyr o fewn 48 awr.  Os bydd yr ymchwiliad i'r gŵyn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, bydd y Rheolwr Cwynion yn rhoi gwybod i'r claf am y rheswm dros yr oedi, hynt yr ymchwiliad a'r dyddiad y disgwylir iddo gael ei gwblhau. Mae'r amserlen ymateb hon yn gymwys i gwynion a wneir yn ysgrifenedig a thrwy e-bost, gyda'r diwygiadau canlynol: os caiff cwyn neu bryder ei chyflwyno/gyflwyno yn ysgrifenedig, bydd y Rheolwr Cwynion yn cydnabod ei derbyn/dderbyn yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith, a bydd yn anelu at ddarparu ymateb ysgrifenedig llawn o fewn 10 diwrnod gwaith.<br><br>Rydym bob amser yn cymryd cwynion o ddifrif. Rydym yn | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymchwilio iddynt yn llawn ac mewn modd teg, ac rydym bob amser yn cymryd pob gofal i ddiogelu cyfrinachedd y claf. Nid ydym byth yn gwahaniaethu yn erbyn cleifion sy'n gwneud cwyn.<br><br>Mae cofnod dienw wedi cael ei ychwanegu at ein ffolder Adborth Gwerthfawr gan Gleifion. Bydd hwn yn darparu dull mwy systematig o asesu adborth a gellir ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd tîm yn y dyfodol i drafod pryderon a godwyd heb enwi'r person neu'r personau a roddodd yr adborth gwerthfawr.<br><br>Bydd hyn wedyn yn helpu i wella ansawdd gwasanaethau.<br><br>Gellir darparu tystiolaeth o gyfarfodydd tîm lle y trafodwyd cofnodion adborth | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gan gleifion dienw i AGIC ar gais. | | |
| **Ychydig o dystiolaeth oedd i ddangos bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, i wella ansawdd gwasanaethau.** | Sefydlu rhaglen o archwiliadau clinigol, gan gynnwys archwiliadau CAPRO, archwiliadau o ansawdd cofnodion cleifion ac archwiliadau rhoi'r gorau i gleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16 (2)(d) | Rydym wedi cynnal archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X yn ddiweddar, a arweiniodd at brynu platiau ffilm pelydr-X digidol newydd, ac rydym wedi cynnal archwiliad o brosesau rhagnodi meddyginiaethau gwrthficrobaidd yn ddiweddar hefyd.<br><br>Byddwn yn ceisio cynnal archwiliadau clinigol yn amlach yn y dyfodol, a chynnwys y rhai a awgrymwyd.<br><br>Rydym yn cydnabod diben a manteision cynnal archwiliadau clinigol a'r modd y mae hyn yn ein helpu i gyflawni ein nod o wella'r holl wasanaethau a ddarperir gennym yn barhaus. | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus o 05/10/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ni welwyd tystiolaeth bod y practis yn monitro, yn adolygu ac yn gwella ansawdd gwasanaethau.** | Sefydlu prosesau i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd, gan ystyried safbwyntiau cleifion a staff. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(5 | Rydym yn asesu ansawdd ein gwasanaethau yn barhaus, ac yn gwneud gwelliannau yn rheolaidd. Er mwyn darparu cofnod ysgrifenedig o welliannau o'r fath, bydd ffeil yn cael ei chreu i ddogfennu'r newidiadau parhaus hyn wrth iddynt ddigwydd. | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus o 05/10/2023 |
| **Nid oedd y practis yn defnyddio'r adnoddau hyfforddi Gwella Ansawdd a ddarperir gan AaGIC.** | Adolygu'r adnoddau hyfforddi Gwella Ansawdd a ddarperir gan AaGIC a mabwysiadu'r rhai sy'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(5 | Byddwn yn parhau i asesu'r adnoddau hyfforddi Gwella Ansawdd a ddarperir gan AaGIC ac yn ystyried a yw'n briodol eu defnyddio wrth asesu'r gwasanaethau a ddarperir. | Anthony Moore<br><br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus o 05/10/2023 |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Dr Raminta Urbonaviciene**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd a Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 06/10/2023**